Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GSR GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
59/2021
DYDDIAD CYHOEDDI:
23/09/2021

# Agweddau'r cyhoedd tuag at gosbi plant yn gorfforol: Arolwg Ton 3, 2020

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80195-825-7

# Agweddau'r cyhoedd tuag at gosbi plant yn gorfforol: Arolwg Ton 3, 2020


Awdur:

Chris Timmins, Beaufort Research



Adroddiad Ymchwil Llawn: Timmins, C. (2021). *Agweddau'r cyhoedd tuag at gosbi plant yn gorfforol: Arolwg Ton 3, 2020.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru, Rhif adroddiad YGLI 59/2021.
Ar gael yn: https://llyw.cymru/agweddaur-cyhoedd-tuag-gosbi-plant-yn-gorfforol-cam-3-2020



Safbwyntiau'r ymchwilydd yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid rhai Llywodraeth Cymru o anghenraid



I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch ag:

Alyson Lewis:

Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: YmchwilCyfiawnderCymdeithasol@llyw.cymru

## Tabl y cynnwys

Rhestr o ffigurau a thablau ........ 2

1. Cyflwyniad ........ 4
2. Agweddau tuag at smacio ........ 8
3. Gwybodaeth am y ddeddfwriaeth bresennol ........ 11
4. Ymwybyddiaeth o newidiadau i'r ddeddfwriaeth ........ 15
5. Barn am newidiadau i'r ddeddfwriaeth ........ 22
6 Casgliadau ........ 30

Atodiad A – Dadansoddiad o'r rhai sy'n byw / nad ydynt yn byw mewn aelwydydd â phlant 6 oed ac iau ........ 33
Atodiad B – Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru ar rianta ........ 40
Atodiad C – Holiadur yr arolwg ........ 42
Atodiad D – Dull ymchwil ........ 45
Atodiad E – Disgrifiad o'r newid i'r ddeddfwriaeth a gyflwynwyd i ymatebwyr yn arolwg mis Tachwedd 2020 ........ 47
Atodiad F– Diffiniad o raddau cymdeithasol ........ 48
Atodiad G – Meintiau is-samplau ........ 49

## Rhestr o ffigurau a thablau


Ffigur 2.1: Y ganran a oedd yn cytuno ‘ei bod hi weithiau’n angenrheidiol smacio plentyn’ (Pawb – 2018, 2019, 2020) ..... 8

Ffigur 2.2: Y ganran a oedd yn cytuno ‘ei bod hi weithiau’n angenrheidiol smacio plentyn’ (Pawb ac yn ôl y rhywiau a grwpiau oedran) ..... 9

Ffigur 2.3: Y ganran a oedd yn cytuno ‘ei bod hi weithiau’n angenrheidiol smacio plentyn’ (Pawb ac yn ôl gradd gymdeithasol) ..... 10

Ffigur 3.1: Y ganran sy’n credu bod y gyfraith bresennol yn caniatáu i rieni smacio’u plant (Pawb – 2018, 2019, 2020) ..... 12

Ffigur 3.2: Y ganran sy’n credu bod y gyfraith bresennol yn caniatáu i rieni smacio’u plant (Pawb ac yn ôl grŵp oedran) ..... 12

Ffigur 3.3: Y ganran sy’n credu bod y gyfraith bresennol yn caniatáu i rieni smacio’u plant (Pawb ac yn ôl y rhywiau ac yn ôl gradd gymdeithasol) ..... 13

Ffigur 3.4: Y ganran a oedd yn meddwl bod pob lefel o gosb yn cael ei chaniatáu gan y gyfraith bresennol ..... 14

Ffigur 4.1: Y ganran a oedd yn ymwybodol o newidiadau i’r ddeddfwriaeth mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol [Digymell] (Pawb – 2018, 2019, 2020) ..... 15

Ffigur 4.2: Y ganran a oedd yn ymwybodol o newidiadau arfaethedig i’r ddeddfwriaeth mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol [Digymell] (Pawb ac yn ôl oedran a gradd gymdeithasol) ..... 16

Tabl 4.1: Allwch chi ddweud wrthyf sut fydd y gyfraith yn newid yn eich tyb chi? [Digymell] 17

Tabl 4.2: Sut ddaethoch chi’n ymwybodol o’r newid i’r gyfraith mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol? ..... 19

Ffigur 4.3: Y ganran a oedd yn ymwybodol o newidiadau i’r ddeddfwriaeth mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol [O gael eu harwain] (Pawb – 2018, 2019, 2020) ..... 20

Ffigur 4.4: Y ganran a oedd yn ymwybodol o newidiadau i’r ddeddfwriaeth mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol [O gael eu harwain] (Pawb ac yn ôl grŵp oedran a gradd gymdeithasol) ..... 21

Ffigur 5.1: Barn am y newid i’r ddeddfwriaeth mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol (%) (Pawb – 2018, 2019, 2020) ..... 23

Ffigur 5.2: Barn am y newid i ddeddfwriaeth mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol (Pawb ac yn ôl grŵp oedran) ..... 24

Ffigur 5.3: Barn am y newid i’r ddeddfwriaeth mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol (Pawb ac yn ôl y rhywiau) ..... 25

Tabl 5.1: Allwch chi ddweud wrthyf pam eich bod o blaid y newid i’r gyfraith mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol yng Nghymru? [Digymell] ..... 26

Tabl 5.2: Allwch chi ddweud wrthyf pan eich bod yn erbyn y newid i’r gyfraith mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol yng Nghymru? [Digymell] ..... 27

Tabl 5.3: Allwch chi ddweud wrthyf pa wybodaeth arall y mae arnoch ei hangen? [Digymell]…… 29

Ffigur A1.1:  Y ganran sy'n cytuno 'ei bod hi weithiau'n angenrheidiol smacio plentyn' (Pawb a pha un a ydynt yn byw mewn aelwyd â phlentyn 6 oed ac iau ai peidio) .......................... 34

Ffigur A1.2: Y ganran sy'n credu bod y gyfraith bresennol yn caniatáu i rieni smacio'u plant (Pawb ac yn ôl pa un a ydynt yn byw mewn aelwyd â phlentyn 6 oed ac iau ai peidio) ....... 35

Ffigur A1.3: Y ganran a oedd yn ymwybodol o newidiadau i'r ddeddfwriaeth mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol [Digymell] (Pawb ac yn ôl pa un a ydynt yn byw mewn aelwyd â phlentyn 6 oed ac iau ai peidio)............................................................................. 36

Ffigur A1.4: Y ganran a oedd yn ymwybodol o newidiadau i'r ddeddfwriaeth mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol [O gael eu harwain] (Pawb ac yn ôl pa un a ydynt yn byw mewn aelwyd â phlentyn 6 oed ac iau ai peidio)........................................................................ 37

Ffigur A1.5: Barn am y newid i'r ddeddfwriaeth mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol (%) (Pawb ac yn ôl pa un a ydynt yn byw mewn aelwyd â phlentyn 6 oed ac iau ai peidio). 38

Ffigur A1.6: Barn am y newid i'r ddeddfwriaeth mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol (%) (Yn ôl pa un a ydynt yn byw mewn aelwyd â phlentyn 6 oed ac iau ai peidio dros amser – 2019, 2020)........................................................................................................ 39

Tabl A1.7: Ymchwil Flaenorol Berthnasol gan Lywodraeth Cymru ..................................... 40

Tabl A1.8: Diffiniadau o raddau cymdeithasol ..................................................................... 47

Tabl A1.9: Meintiau samplau'r is-grwpiau ............................................................................ 48

# 1. Cyflwyniad

## 1.1 Cefndir ac amcanion

1.1 Cyflwynwyd y Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) i Gynulliad Cenedlaethol Cymru[1] ar 25 Mawrth 2019. Ar 20 Mawrth 2020 cafodd y Bil Gydsyniad Brenhinol a daeth yn Ddeddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020. Bydd y ddeddf newydd yn dod i rym ar 21 Mawrth 2022.

1.2 Amcan trosfwaol y ddeddfwriaeth yw helpu i amddiffyn hawliau plant trwy wahardd defnyddio cosb gorfforol yn erbyn plant, trwy gael gwared ar amddiffyniad cosb resymol. Byddai hyn yn golygu nad yw'r amddiffyniad ar gael mwyach o fewn tiriogaeth Cymru i rieni neu'r rhai sy'n gweithredu *in loco parentis* (yn gweithredu â chyfrifoldeb rhiant), fel amddiffyniad yn erbyn cyhuddiad o ymosod cyffredin ar blentyn neu guro plentyn sydd yn eu gofal.

1.3 Mae Adran 2 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru hybu ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r newid yn y gyfraith cyn i'r Ddeddf ddod i rym ym mis Mawrth 2022. Mae Llywodraeth Cymru'n ymrwymedig i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r newid yn y gyfraith. Fe adolygwyd ei hymgyrch arfaethedig i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o ganlyniad i bandemig y Coronafeirws, i ganolbwyntio ar ymgysylltu â rhanddeiliaid, gweithio gyda chynulleidfaoedd penodol a hybu a chefnogi rhianta cadarnhaol tan haf 2021. Wedyn bydd ymgyrch i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd ar y cyfryngau cymdeithasol, a fydd yn cynnwys hysbysebu a chysylltiadau cyhoeddus, yn dilyn nes cychwyn y ddeddfwriaeth ym mis Mawrth 2022. Bwriedir i weithgarwch codi ymwybyddiaeth barhau am rai blynyddoedd yn dilyn cychwyn y ddeddfwriaeth i godi ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd yng Nghymru.

1.4 Amcan yr ymchwil hon oedd adeiladu ar donnau blaenorol o ymchwil a gynhaliwyd yn 2018 a 2019 o ran agweddau'r cyhoedd tuag at gosbi plant yn gorfforol gan gynnwys y ddeddfwriaeth. Cyflawnwyd y gwaith maes ar gyfer yr arolwg hwn ym mis Tachwedd 2020. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ailadrodd y

[1] Ym mis Mai 2020 cafodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ei ailenwi'n Senedd Cymru [Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 (llyw.cymru)]

cwestiynau hyn yn rheolaidd i dracio ymwybyddiaeth a barn y cyhoedd wrth i'r ymgyrch i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd fynd rhagddo dros nifer y flynyddoedd.

## 1.2 Nodyn ar newidiadau i'r dull o gasglu data ar gyfer arolwg 2020

1.5 Fe wnaed y gwaith maes ar gyfer yr arolwg hwn ym mis Tachwedd 2020 yn ystod argyfwng iechyd y cyhoedd Covid-19. O ystyried y cyfyngiadau a oedd mewn grym yn ystod y cyfnod hwn nid oedd yn bosibl cynnal yr arolwg yn yr un modd â'r tonnau blaenorol yn 2018 a 2019 a ddefnyddiodd ddull a weinyddwyd gan gyfwelydd wyneb-yn-wyneb yn y cartref.

1.6 Fe gwblhawyd arolwg 2020 trwy ddull hunangwblhau ar-lein gan ddefnyddio panel ar-lein[2]. Er bod yr arolwg ar-lein a'r arolygon wyneb-yn-wyneb blaenorol wedi'u bwriadu i gynhyrchu samplau cynrychiolaidd o'r boblogaeth oedolion (16+ oed) yng Nghymru, mae'n bosibl y gallai'r newid dull fod wedi cael rhywfaint o effaith ar y canlyniadau. Er enghraifft, efallai y bydd rhai ymatebwyr yn ateb yn wahanol pan nad oes cyfwelydd yn bresennol, ac mae angen i rai cwestiynau a oedd yn ddigymell yn flaenorol gael eu fframio'n wahanol pan nad oes cyfwelydd yn bresennol i godio atebion. Er ei bod yn anodd bod yn bendant ynglŷn â hyn, mae tystiolaeth yn awgrymu bod effeithiau'n tueddu i fod yn fwy ar gyfer cwestiynau sy'n holi am werthoedd ac ymddygiad, gydag effeithiau llai ar gyfer gwybodaeth fwy ffeithiol[3]. Felly dylid trin unrhyw newidiadau rhwng canlyniadau'r tonnau cyn i modd yr arolwg newid a'r don gyfredol â gofal; gallai newid fod yn gyfan gwbl, yn rhannol neu ddim o gwbl oherwydd y newid yn y modd. Byddwn yn adolygu'r mater hwn mewn casgliadau data yn y dyfodol ac adroddiadau dilynol. Mae rhagor o wybodaeth am ddull yr arolwg yn 2020 i'w chael yn Atodiad D.

1.7 Ar gyfer arolygon 2018 a 2019, cafodd yr is-grŵp ym mhob arolwg a oedd â chyfrifoldebau gofalu rheolaidd am unrhyw blentyn 7 oed ac iau eu hadnabod, gan ei gwneud yn bosibl archwilio gwahaniaethau mewn barn ac ymddygiad yn yr is-grŵp yn y ddau arolwg. Ar gyfer arolwg 2020, nid oedd data i'w gwneud yn bosibl dadansoddi ymatebion yn ôl pa un a oedd gan yr ymatebydd i'r arolwg gyfrifoldebau

[2] Grŵp o gyfranogwyr ymchwil sydd wedi cofrestru i cael cyswllt o bryd i'w gilydd i gwblhau arolygon ar-lein yw panel ar-lein.
[3] Investigating the viability of moving from a face-to-face to an online/postal mode: evidence from a series of methodological studies 2012-2015 (adran 9.3)

gofalu rheolaidd am unrhyw blentyn 7 oed ac iau ar gael. Roedd data ynghylch pa un a oedd yr ymatebydd i'r arolwg yn byw mewn aelwyd â phlant 6 oed ac iau neu beidio ar gael, ond ni ellir cymharu hwn yn uniongyrchol ac felly mae'r dadansoddiad ar sail y data hwnnw i'w gael yn Atodiad A. Y bwriad yw ailgyflwyno'r diffiniad o is-grŵp a ddefnyddiwyd ar gyfer arolygon 2018 a 2019 pan gynhelir yr arolwg arfaethedig yn 2021.

## 1.3 Ynglŷn â'r adroddiad hwn

1.8 Mae'r canfyddiadau a nodir yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar ymchwil a gynhaliwyd ar Arolwg Omnibws Cymru Beaufort ym mis Tachwedd 2020 a gyfwelodd â sampl seiliedig ar gwota cynrychiolaidd o 1,002 o oedolion 16+ oed ledled Cymru. Mae hyn yn cynnwys rhieni/gwarcheidwaid ac oedolion nad ydynt yn rhieni/gwarcheidwaid. Mae canfyddiadau o'r arolwg hwn yn cael eu cymharu'n fynych yn yr adroddiad hwn â set sydd bron union yr un fath o gwestiynau[4] a ofynnwyd yn Arolwg Omnibws Cymru Beaufort ym mis Tachwedd 2018 a mis Tachwedd 2019. Cynhelir pob Arolwg Omnibws Cymru gyda samplau ar wahân o oedolion 16+ yng Nghymru sy'n cyfateb â'i gilydd o ran demograffeg megis oedran, rhyw, rhanbarth a gradd gymdeithasol, er bod arolwg 2020, fel a nodwyd yn yr adran flaenorol, wedi cael ei gynnal trwy hunangwblhau ar-lein yn hytrach na'r dull gweinyddu gan gyfwelydd wyneb-yn-wyneb a ddefnyddiwyd mewn tonnau blaenorol. Mae'r gwaith hwn yn rhan o gyfres o ymchwil rhianta a gyflawnwyd gan Lywodraeth Cymru ers 2013. Ceir tabl o adroddiadau yn Atodiad B.

1.9 Roedd yr holiadur ar gyfer yr arolwg hwn yn cynnwys cyfres o gwestiynau am agweddau tuag at smacio, ymwybyddiaeth o ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â chosbi plant yn gorfforol ac ymwybyddiaeth a barn am newidiadau i'r ddeddfwriaeth. Cafodd cwestiynau demograffig eu cynnwys hefyd fel arfer safonol yn arolwg

[4] Yr unig ddiwygiadau bychain oedd nad oedd cwestiynau 4, 6, 7 ac 8 yn dweud 'newidiadau arfaethedig' mwyach fel yr oeddent yn 2018 a 2019 am eu bod yn adlewyrchu'r ffaith bod y Bil wedi cael Cydsyniad Brenhinol ym mis Mawrth 2020. Hefyd, yn 2020 yng nghwestiwn 1, roedd *'ddim yn gwybod'* yn god ymateb o gael arweiniad yn hytrach na chael ei gofnodi'n ddigymell yn unig yn 2018/2019 gan adlewyrchu'r newid dull o arolwg wyneb-yn-wyneb i arolwg ar-lein. Roedd yr un peth yn wir am gwestiwn 3 ar gyfer codau ymateb *'ddim yn gwybod'* ac *'wedi gwrthod'*. Yn olaf, ac eto gan adlewyrchu'r newid i ddull ar-lein, yng nghwestiwn 6 roedd ymatebwyr yn cael eu harwain â rhestr o ffynonellau ymwybyddiaeth tra bo'r rhestr hon yn 2018/2019 yn ddigymell.

Omnibws Cymru. Roedd yr holiadur ar gael yn Gymraeg neu yn Saesneg yn ôl dewis y cyfranogwr ac mae i'w gael yn Atodiad C ar ddiwedd y ddogfen hon.

### 1.4 Profion ystadegol

1.10 Drwy'r adroddiad hwn dygir cymariaethau rhwng gwahanol grwpiau o'r boblogaeth (er enghraifft, y rhai o wahanol grwpiau oedran neu ryw) i ddeall a yw eu hagweddau, eu hymddygiadau neu eu gwybodaeth yn amrywio. Ceir cymariaethau hefyd rhwng gwahanol flynyddoedd yr arolwg i ganfod a fu newidiadau dros amser. Mae'r adroddiad yn defnyddio profion ystadegol i gymharu canlyniadau rhwng grwpiau o'r boblogaeth a hefyd i gymharu canlyniadau dros amser. Lle nodir bod gwahaniaeth rhwng dau grŵp neu ddau gyfnod o amser yn 'arwyddocaol' yn yr adroddiad hwn, mae hyn yn golygu bod y tebygolrwydd o gael y canfyddiad drwy siawns yn llai nag un mewn 20 ac felly y gellir ei gyffredinoli i'r boblogaeth ehangach.


1.11 Ceir rhagor o wybodaeth am fethodoleg yr arolwg yn Atodiad D.

## 2. Agweddau tuag at smacio

2.1 Gofynnwyd i'r holl ymatebwyr i ba raddau yr oeddent yn cytuno neu'n anghytuno *ei bod hi weithiau'n angenrheidiol smacio plentyn*. Roedd y farn ynglŷn â hyn ar draws tair ton yr arolwg wedi'i hollti, i ryw raddau, er bod mwy yn anghytuno â'r gosodiad hwn nag oedd yn cytuno ag ef ym mhob ton[5].

2.2 Yn yr arolwg diweddaraf, roedd 34% yn cytuno a 47% yn anghytuno *ei bod hi weithiau'n angenrheidiol smacio plentyn*. Mae'r gwahaniaeth rhwng y cyfrannau a oedd yn cytuno ac yn anghytuno â'r gosodiad yn llai na'r gwahaniaeth yn arolwg 2019 (31% yn cytuno, 55% yn anghytuno). Cafodd y gwahaniaeth hwn rhwng 2019 a 2020 ei gadarnhau gan brofion ystadegol ac felly gellir cyffredinoli'r canfyddiad i'r boblogaeth ehangach. Ar y cyfan, mae'r cyfrannau a oedd yn cytuno ac yn anghytuno â'r gosodiad hwn yn 2020 yn debyg i'r arolwg sylfaenol yn 2018[6].

**Ffigur 2.1: Y ganran a oedd yn cytuno 'ei bod hi weithiau'n angenrheidiol smacio plentyn' (Pawb – 2018, 2019, 2020)**





*Sail: Pawb – 2018 (1,002), 2019 (1,002), 2020 (1,002)*

[5] Dylid trin unrhyw ddiffyg newid rhwng canlyniadau tonnau cyn i'r modd newid a'r don gyfredol â gofal; gallai diffyg newid fod yn gyfan gwbl, yn rhannol neu ddim o gwbl oherwydd y newid yn y modd.
[6] Dylid trin unrhyw newidiadau rhwng canlyniadau tonnau cyn i'r modd newid a'r don gyfredol â gofal; gallai newid fod yn gyfan gwbl, yn rhannol neu ddim o gwbl oherwydd y newid yn y modd.

2.5 Fel a ddangosir yn ffigur 2.2, pan ydym yn archwilio hyn yn ôl oedran yr ymatebydd, rydym yn canfod bod y rhai yn y grŵp oedran hŷn (55+) yn fwy tebygol o gytuno *ei bod hi weithiau'n angenrheidiol smacio plentyn* – sef 47%[7] a oedd bron 2.5 gwaith y nifer o ymatebwyr 16-34 oed a oedd yn arddel y farn hon (20%). Er ei fod yn llai amlwg na'r gwahaniaeth rhwng grwpiau oedran, canfuwyd gwahaniaeth barn rhwng y rhywiau hefyd gyda 41% o ddynion yn cytuno â'r gosodiad o'i gymharu â 27% o fenywod. Cafodd y gwahaniaethau a nodwyd yn ôl oedran a'r rhywiau eu cadarnhau gan brofion ystadegol ac felly gellir cyffredinoli'r canfyddiad i'r boblogaeth ehangach.

**Ffigur 2.2: Y ganran a oedd yn cytuno 'ei bod hi weithiau'n angenrheidiol smacio plentyn' (Pawb ac yn ôl y rhywiau a grwpiau oedran)**




*Sail: Pawb (1,002), Dynion (369), Menywod (630), 16-34 (364), 35-54 (357), 55+ (281)*


2.6 Canfuwyd gwahaniaethau o ran cytuno â'r datganiad hwn yn ôl grwpiau oedran (a gadarnhawyd gan brofion ystadegol) yn arolygon 2018 a 2019 hefyd; eto, po hynaf oedd yr ymatebydd, po fwyaf tebygol ydoedd o gytuno 'ei bod hi weithiau'n

[7] Mae'r cyfanswm yn 47% yn hytrach na 46% (12% + 34% fel a ddangosir yn Ffigur 2.2) gan bod y canrannau'n 12.48% a 34.44% = 46.92%.

angenrheidiol smacio plentyn'[8]. Ni chanfuwyd fod gwahaniaethau o'r fath yn ôl y rhywiau'n arwyddocaol yn ystadegol yn arolygon 2018 a 2019[9].

2.7 Mae Ffigur 2.3 yn dangos canfyddiadau ar gyfer yr un mesur yn ôl gradd gymdeithasol[10]. Roedd barn y rhai yng ngraddau cymdeithasol ABC1[11] yn debyg i farn y rhai yng ngraddau cymdeithasol C2DE. Mae hyn yn cyfnerthu'r un canfyddiad o arolwg 2019[12], ond roedd mewn cyferbyniad â'r arolwg sylfaenol yn 2018[13] pan ganfu'r arolwg fod y rhai yng ngraddau cymdeithasol ABC1 yn llai tebygol o gytuno *ei bod hi weithiau'n angenrheidiol smacio plentyn*.

**Ffigur 2.3: Y ganran a oedd yn cytuno 'ei bod hi weithiau'n angenrheidiol smacio plentyn' (Pawb ac yn ôl gradd gymdeithasol)**




*Sail: Pawb (1,002), ABC1 (554), C2DE (448)*

[8] Dylid trin unrhyw ddiffyg newid rhwng canlyniadau tonnau cyn i'r modd newid a'r don gyfredol â gofal; gallai diffyg newid fod yn gyfan gwbl, yn rhannol neu ddim o gwbl oherwydd y newid yn y modd.
[9] Dylid trin unrhyw newidiadau rhwng canlyniadau tonnau cyn i'r modd newid a'r don gyfredol â gofal; gallai newid fod yn gyfan gwbl, yn rhannol neu ddim o gwbl oherwydd y newid yn y modd.
[10] System ddosbarthu sy'n seiliedig ar alwedigaeth prif enillydd incwm yr aelwyd yw gradd gymdeithasol.
[11] Ceir diffiniadau o raddau cymdeithasol A, B, C1, C2, D, E yn Atodiad F
[12] Dylid trin unrhyw ddiffyg newid rhwng canlyniadau tonnau cyn i'r modd newid a'r don gyfredol â gofal; gallai diffyg newid fod yn gyfan gwbl, yn rhannol neu ddim o gwbl oherwydd y newid yn y modd.
[13] Dylid trin unrhyw newidiadau rhwng canlyniadau tonnau cyn i'r modd newid a'r don gyfredol â gofal; gallai newid fod yn gyfan gwbl, yn rhannol neu ddim o gwbl oherwydd y newid yn y modd.


## 3. Gwybodaeth am y ddeddfwriaeth bresennol

3.1 Y sefyllfa gyfreithiol bresennol o ran smacio neu gosbi plant yn gorfforol mewn ffordd arall yng Nghymru yw bod rhieni ac oedolion sy'n gweithredu *in loco parentis* (yn gweithredu â chyfrifoldeb rhiant) yn gallu dibynnu ar amddiffyniad cosb resymol yn erbyn cyhuddiad o ymosod cyffredin. Nid yw rhieni sy'n cosbi eu plant yn gorfforol yn gallu defnyddio'r amddiffyniad cosb resymol yn erbyn cyhuddiadau o greulondeb, clwyfo neu ymosodiadau sy'n achosi gwir niwed corfforol neu niwed corfforol difrifol. Mae canllawiau Gwasanaeth Erlyn y Goron yn egluro fel a ganlyn: "er bod unrhyw anaf sy'n fwy nag 'anaf dros dro neu fân anaf' yn gallu cael ei ystyried yn wir niwed corfforol, y cyhuddiad priodol fydd Ymosod Cyffredin lle nad oes unrhyw anaf yn digwydd neu lle ceir anafiadau nad ydynt yn ddifrifol".

3.2 Roedd tua dwy ran o dair (68%) o'r bobl a arolygwyd yn 2020 yn meddwl nad oedd y gyfraith yn caniatáu i rieni smacio'u plant. Roedd bron i un rhan o bump (22%) yn meddwl bod y gyfraith yn caniatáu i rieni smacio a dywedodd y 10% sy'n weddill eu bod yn ansicr. Mae'r cyfrannau hyn yn wahanol i arolygon 2019 a 2018 yn yr ystyr bod mwy yn credu yn awr nad yw smacio'n cael ei ganiatáu ac o ganlyniad mae llai'n credu ei fod yn cael ei ganiatáu neu'n ansicr. Caiff y gwahaniaeth hwn mewn ymatebion rhwng 2020 a 2018/2019 ei gadarnhau gan brofion ystadegol ac felly gellir cyffredinoli'r canfyddiad i'r boblogaeth ehangach[14].

[14] Dylid trin unrhyw newidiadau rhwng canlyniadau tonnau cyn i'r modd newid a'r don gyfredol â gofal; gallai newid fod yn gyfan gwbl, yn rhannol neu ddim o gwbl oherwydd y newid yn y modd.


**Ffigur 3.1: Y ganran sy'n credu bod y gyfraith bresennol yn caniatáu i rieni smacio'u plant (Pawb – 2018, 2019, 2020)**




*Sail: Pawb – 2018 (1,002), 2019 (1,002), 2020 (1,002)*

3.3 Y rhai 16-34 oed oedd fwyaf tebygol o gredu bod smacio'n cael ei ganiatáu (25%), er eu bod yn dal yn y lleiafrif. Fodd bynnag, ni chafodd unrhyw wahaniaethau yn ôl oedran eu cadarnhau gan brofion ystadegol ac felly ni ellir eu cyffredinoli i'r boblogaeth ehangach.


**Ffigur 3.2: Y ganran sy'n credu bod y gyfraith bresennol yn caniatáu i rieni smacio'u plant (Pawb ac yn ôl grŵp oedran)**




*Sail: Pawb (1,002), 16-34 (364), 35-54 (357), 55+ (281)*

3.4 Nid yw gwybodaeth am y gyfraith ar smacio'n dangos rhyw lawer o wahaniaethau yn ôl gradd gymdeithasol na'r rhywiau. Mae oddeutu un ymhob pump o bob grŵp, fel a ddangosir yn ffigur 3.3, yn credu bod y gyfraith yn caniatáu i rieni smacio'u plant.

**Ffigur 3.3: Y ganran sy'n credu bod y gyfraith bresennol yn caniatáu i rieni smacio'u plant (Pawb ac yn ôl y rhywiau ac yn ôl gradd gymdeithasol)**





*Sail: Pawb (1,002), Dynion (369), Menywod (630), ABC1 (554), C2DE (448)*

3.5 Wedyn hysbyswyd yr unigolion fod y gyfraith bresennol yn caniatáu i rieni smacio eu plant neu eu disgyblu'n gorfforol a gofynnwyd i'r ymatebwyr pa lefel o gosb oedd y gyfraith yn ei chaniatáu yn eu tyb hwy. Mae'r opsiynau a roddwyd iddynt i'w cael yn ffigur 3.4 ynghyd â'r gyfran o bobl a oedd yn meddwl bod pob lefel yn cael ei chaniatáu (roedd yr ymatebwyr yn gallu dewis mwy nag un opsiwn).

3.6 Roedd oddeutu dwy ran o dair (66%) yn meddwl y byddai cosb nad oedd yn gadael unrhyw farc o gwbl ar y plentyn yn cael ei chaniatáu gan y gyfraith. Roedd llawer llai (23%) yn meddwl y byddai cosb a oedd yn achosi i'r croen gochi dros dro yn cael ei chaniatáu. Dim ond cyfran fach iawn oedd yn meddwl y byddai lefelau uwch o gosb gorfforol megis rhywbeth sy'n gadael clais am ychydig ddyddiau (3%) neu'n gadael marciau neu gleisiau sy'n para am yn hwy nag ychydig ddyddiau ond nad yw'n arwain at anaf corfforol parhaol (3%) yn cael eu caniatáu gan y gyfraith.

Dywedodd ychydig o dan un rhan o bump (18%) nad oeddent yn gwybod pa lefel o gosb fyddai'n cael ei chaniatáu. Roedd y canfyddiadau'n debyg i'r rhai a gafwyd yn arolygon 2018 a 2019[15].

**Ffigur 3.4: Y ganran a oedd yn meddwl bod pob lefel o gosb yn cael ei chaniatáu gan y gyfraith bresennol**





*Sail: Pawb - 2018 (1,002), 2019 (1,002), 2020 (1,002)*

[15] Dylid trin unrhyw ddiffyg newid rhwng canlyniadau tonnau cyn i'r modd newid a'r don gyfredol â gofal; gallai diffyg newid fod yn gyfan gwbl, yn rhannol neu ddim o gwbl oherwydd y newid yn y modd.

## 4. Ymwybyddiaeth o newidiadau i'r ddeddfwriaeth

4.1 Yn yr arolwg diweddaraf, dywedodd ychydig dros chwarter (27%) y bobl eu bod yn ymwybodol o newidiadau i'r gyfraith mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol ar lefel ddigymell [16]. Roedd hyn yn cymharu â ffigwr cyfatebol o 42% yn arolwg 2019 a oedd yn ymwybodol o'r newidiadau. Caiff y gostyngiad hwn ers 2019 mewn ymwybyddiaeth o'r newidiadau ei gadarnhau gan brofion ystadegol ac felly gellir cyffredinoli'r canfyddiad i'r boblogaeth ehangach. Roedd lefelau ymwybyddiaeth ddigymell yn debyg iawn i'r rhai a gofnodwyd yn yr arolwg sylfaenol yn 2018[17].

**Ffigur 4.1: Y ganran a oedd yn ymwybodol o newidiadau i'r ddeddfwriaeth mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol [Digymell] (Pawb – 2018, 2019, 2020)**




*Sail: Pawb – 2018 (1,002), 2019 (1,002), 2020 (1,002)*

4.2 Fel a ddangosir yn ffigur 4.2, roedd y rhai yng ngraddau cymdeithasol C2DE (23%) yn llai tebygol o fod yn ymwybodol o'r newid na'r rhai yng ngraddau cymdeithasol ABC1 (29%). Cadarnhawyd y gwahaniaeth hwn gan brofion ystadegol ac felly gellir cyffredinoli'r canfyddiad i'r boblogaeth ehangach. Roedd ymatebwyr iau


---

[16] Ni chafodd yr ymatebwyr unrhyw fanylion ar gyfer newidiadau posibl ar yr adeg hon a gofynnwyd iddynt yn syml '*Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw newidiadau i'r gyfraith mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol?'*

[17] Dylid trin unrhyw newidiadau rhwng canlyniadau tonnau cyn i'r modd newid a'r don gyfredol â gofal; gallai newid fod yn gyfan gwbl, yn rhannol neu ddim o gwbl oherwydd y newid yn y modd.

sy'n 16-34 oed yn llai tebygol o fod yn ymwybodol o'r newid yn y ddeddfwriaeth na'r rhain yn y grŵp oedran hŷn, sef 55+ oed (24% o'i gymharu â 29%). Fodd bynnag, ni chadarnhawyd y gwahaniaeth hwn gan brofion ystadegol ac felly ni ellir ei gyffredinoli i'r boblogaeth ehangach.

**Ffigur 4.2: Y ganran a oedd yn ymwybodol o newidiadau arfaethedig i'r ddeddfwriaeth mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol [Digymell] (Pawb ac yn ôl oedran a gradd gymdeithasol)**




*Sail: Pawb (1,002), 16-34 (364), 35-54 (357), 55+ (281), ABC1 (554), C2DE (448)*

4.3 Nodwyd lefelau is o ymwybyddiaeth ddigymell o'r newid ym mhob grŵp oedran a phob gradd gymdeithasol yn 2020 o'i gymharu â 2019, ac eithrio ymatebwyr 16-34 oed yr arhosodd eu lefel ymwybyddiaeth yn gyson ar 24%[18]. Ar gyfer y grwpiau sy'n weddill cafodd y gwahaniaethau a gofnodwyd eu cadarnhau gan brofion ystadegol ac felly gellir cyffredinoli'r canfyddiad i'r boblogaeth ehangach.

4.4 Gofynnwyd i'r rhai a ddywedodd eu bod yn ymwybodol o newidiadau i'r ddeddfwriaeth (261 o ymatebwyr) ddisgrifio yn eu geiriau eu hunain sut yr oeddent yn meddwl y byddai'r gyfraith yn newid. Wedyn cafodd eu hymatebion eu grwpio'n themâu ac fe'u dangosir yn nhabl 4.1. Yr ymateb mwyaf mynych o bell ffordd oedd y byddai smacio'n cael ei wahardd [yn gyfan gwbl] \ y bydd yn anghyfreithlon. Fe wnaeth oddeutu dwy ran o dair (64%) o'r rhai a oedd yn ymwybodol o newid grybwyll hyn yn ddigymell. Cyfeiriodd un ymhob deg (10%) at wahardd smacio yng nghyd-

[18] Dylid trin unrhyw newidiadau rhwng canlyniadau tonnau cyn i'r modd newid a'r don gyfredol â gofal; gallai newid fod yn gyfan gwbl, yn rhannol neu ddim o gwbl oherwydd y newid yn y modd.

destun y newid diweddar i'r gyfraith yn yr Alban. Nid oedd cyfanswm o 11% a oedd wedi dweud yn flaenorol eu bod yn ymwybodol o newid yn gallu dweud beth fyddai'r newid hwnnw.

**Tabl 4.1: Allwch chi ddweud wrthyf sut fydd y gyfraith yn newid yn eich tyb chi? [Digymell]**

| **Ymateb** | **Canran yr ymatebwyr** ***(Nifer yr ymatebwyr)*** |
|---|---|
| Smacio \ cosbi'n gorfforol yn cael ei wahardd [yn gyfan gwbl] \ y bydd yn anghyfreithlon | 64 (*n.171)* |
| Y gyfraith newydd newid yn yr Alban \ wedi'i wahardd bellach yn yr Alban | 10 (*n.28)* |
| Ddim yn gwybod | 11 (*n.30)* |
| **Ymatebion eraill a roddwyd gan lai na 5 y cant o'r ymatebwyr** | |
| Mae newid yn cael ei drafod (amhenodol) | |
| Syniad da \ ddim yn cytuno â smacio | |
| Ddim yn gallu cael ei ddefnyddio fel amddiffyniad cyfreithiol mwyach | |
| Dim cyswllt corfforol o gwbl | |
| Cosbau i'r rhai sy'n smacio plant | |
| Wedi gweld \ clywed rhywbeth amdano (amhenodol) | |
| Ro'n i'n meddwl bod smacio eisoes yn anghyfreithlon | |

*Sail: Y rhai a oedd yn ymwybodol o newidiadau i'r gyfraith mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol – digymell (261)*
*(a) Efallai fod cyfanswm y tabl yn fwy na 100 y cant am bod ymatebwyr yn gallu rhoi mwy nag un ateb*
*(b) Cyflwynir ymatebion eraill yn nhrefn yr wyddor*

4.5 Roedd ymatebion i'r cwestiwn hwn yn debyg i'r rhai a ganfuwyd yn arolwg 2018 a 2019 pan mai *Smacio \ cosbi'n gorfforol yn cael ei wahardd [yn gyfan gwbl] \ y bydd yn anghyfreithlon* oedd yr ateb a grybwyllwyd yn fwyaf mynych o bell ffordd hefyd (73% a 69% o'r rhai a oedd yn ymwybodol o newidiadau yn y drefn honno)[19].

4.6 Gofynnwyd hefyd i'r rhai a ddywedodd eu bod yn ymwybodol o newidiadau i'r ddeddfwriaeth ddweud sut yr oeddent wedi dod yn ymwybodol o'r newid (tabl 4.2). Gweld rhywbeth ar y teledu – newyddion \ rhaglen oedd yr ymateb mwyaf mynych o bell ffordd gyda phedwar ymhob deg (41%) o'r rhai a oedd yn ymwybodol o newid yn dweud mai dyma oedd eu ffynhonnell. Bod yn ymwybodol trwy'r newyddion / ar raglenni trwy ddulliau eraill – eitem newyddion ar-lein (15%) a newyddion / rhaglen

[19] Dylid trin unrhyw ddiffyg newid rhwng canlyniadau tonnau cyn i'r modd newid a'r don gyfredol â gofal; gallai diffyg newid fod yn gyfan gwbl, yn rhannol neu ddim o gwbl oherwydd y newid yn y modd.

ar y radio oedd yn gydradd ail (15%). Cafodd clywed ar lafar gwlad trwy deulu a ffrindiau ei grybwyll fel ffynhonnell ymwybyddiaeth o'r newid gan gyfran debyg (14%).

4.7 At ei gilydd, mae'r ffynonellau ymwybyddiaeth o'r newid a enwyd yn arolwg 2020 yn cael eu crybwyll ar lefelau tebyg i arolygon blaenorol[20]. Y prif eithriad yw bod Ar y teledu – newyddion \ rhaglen, er mai hwn oedd yr ateb a roddwyd fynychaf, wedi cael ei grybwyll gan 41% o'r rhai a oedd yn ymwybodol o'r newid yn 2020 o'i gymharu â 50% yn 2018 a 60% yn 2019[21].

[20] Dylid trin unrhyw ddiffyg newid rhwng canlyniadau tonnau cyn i'r modd newid a'r don gyfredol â gofal; gallai diffyg newid fod yn gyfan gwbl, yn rhannol neu ddim o gwbl oherwydd y newid yn y modd.
[21] Dylid trin unrhyw newidiadau rhwng canlyniadau tonnau cyn i'r modd newid a'r don gyfredol â gofal; gallai newid fod yn gyfan gwbl, yn rhannol neu ddim o gwbl oherwydd y newid yn y modd.

**Tabl 4.2: Sut ddaethoch chi'n ymwybodol o'r newid i'r gyfraith mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol?**


| **Ymateb** | **Canran yr ymatebwyr *(Nifer yr ymatebwyr)*** |
|---|---|
| Ar y teledu – newyddion \ rhaglen | 41 (*n.108)* |
| Ar y radio – newyddion \ rhaglen | 15 (*n.41)* |
| Gwefan ar-lein – eitem newyddion | 15 (*n.39)* |
| Dywedodd rhywun wrthyf (teulu \ ffrindiau) | 14 (*n.38)* |
| Facebook | 10 (*n.25)* |
| Y cyfryngau cymdeithasol (heblaw Facebook) | 7 (*n.20)* |
| Papur newydd a gyhoeddir ledled y DU - newyddion \ erthygl | 8 (*n.21)* |
| Gwefan ar-lein - arall | 7 (*n.20)* |
| Hysbyseb ar y teledu | 5 (*n.13)* |
| Papur newydd a gyhoeddir ledled Cymru - newyddion \ erthygl | 5 (*n.12)* |
| Ddim yn gwybod | 7 (*n.20)* |
| **Ymatebion eraill a roddwyd gan lai na 5 y cant o'r ymatebwyr** | |
| Cylchgrawn | |
| Dywedodd rhywun wrthyf (proffesiynol) | |
| Papur newydd a gyhoeddir ledled Cymru - hysbyseb | |
| Papur newydd a gyhoeddir ledled y DU - hysbyseb | |
| Papur newydd lleol - hysbyseb | |
| Papur newydd lleol - newyddion \ erthygl | |
| Radio - hysbyseb | |

*Sail: Y rhai a oedd yn ymwybodol o newidiadau i'r gyfraith mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol – digymell (261)*
*(a) Efallai fod cyfanswm y tabl yn fwy na 100 y cant am bod ymatebwyr yn gallu rhoi mwy nag un ateb*
*(b) Cyflwynir ymatebion eraill yn nhrefn yr wyddor*

4.8 Ar ôl i ni ofyn am eu hymwybyddiaeth ar lefel ddigymell, cyflwynwyd disgrifiad o'r newid deddfwriaethol (sydd i'w weld yn Atodiad E) i'r ymatebwyr a gofynnwyd iddynt a oeddent wedi gweld neu glywed unrhyw beth am hyn. O gael eu harwain, dywedodd ychydig mwy o ymatebwyr eu bod yn ymwybodol o'r ddeddfwriaeth nag a wnaeth ar lefel ddigymell (gweler ffigur 4.1). Roedd cyfanswm o 44% yn gwybod rhywbeth am y newid a hynny'n cynnwys 12% a ddywedodd eu bod yn ymwybodol ohono a grŵp mwy (32%) a oedd yn ymwybodol ond nad oeddent yn siŵr o'r manylion.

4.9 Mae hyn yn ostyngiad mewn ymwybyddiaeth o gael eu harwain o'i gymharu ag arolwg 2019 pan oedd 49% yn gwybod rhywbeth – gweler ffigur 4.3[22]. Caiff y gwahaniaeth hwn ei gadarnhau gan brofion ystadegol ac felly gellir cyffredinoli'r canfyddiad i'r boblogaeth ehangach. Fodd bynnag, mae'r lefel o ymwybyddiaeth o'r newid yn y ddeddfwriaeth gael eu harwain yn 2020 yn dal i fod yn uwch na'r hyn a gofnodwyd yn arolwg sylfaenol 2018 (34%) a chaiff y gwahaniaeth hwn ei gadarnhau gan brofion ystadegol hefyd ac felly gellir cyffredinoli'r canfyddiad i'r boblogaeth ehangach.

**Ffigur 4.3: Y ganran a oedd yn ymwybodol o newidiadau i'r ddeddfwriaeth mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol [O gael eu harwain] (Pawb – 2018, 2019, 2020)**





*Sail: Pawb – 2018 (1,002), 2019 (1,002), 2020 (1,002)*

4.10 Fel gydag ymwybyddiaeth ddigymell, roedd y rhai yng ngradd gymdeithasol ABC1 yn fwy tebygol o fod yn ymwybodol o'r newid deddfwriaethol o gael eu cymell â disgrifiad ohono na'r rhai yng ngradd gymdeithasol C2DE – 49% o'i gymharu â 38%. O ran oedran, cofnodwyd rhai gwahaniaethau hefyd gyda chyfran uwch o'r rhai 55+ oed yn ymwybodol o'r newid (49%) na'r rhai mewn grwpiau oedran iau fel a ddangosir yn ffigur 4.4. Cafodd y gwahaniaethau hyn eu cadarnhau gan brofion ystadegol ac felly gellir cyffredinoli'r canfyddiad i'r boblogaeth ehangach.

[22] Dylid trin unrhyw newidiadau rhwng canlyniadau tonnau cyn i'r modd newid a'r don gyfredol â gofal; gallai newid fod yn gyfan gwbl, yn rhannol neu ddim o gwbl oherwydd y newid yn y modd.

**Ffigur 4.4: Y ganran a oedd yn ymwybodol o newidiadau i'r ddeddfwriaeth mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol [O gael eu harwain] (Pawb ac yn ôl grŵp oedran a gradd gymdeithasol)**




*Sail: Pawb (1,002), 16-34 (364), 35-54 (357), 55+ (281), ABC1 (554), C2DE (448)*


## 5. Barn am y newidiadau i’r ddeddfwriaeth

5.1 A hwythau wedi cael gweld y disgrifiad o’r newid, gofynnwyd i’r ymatebwyr a oeddent o blaid cael gwared ar amddiffyniad cosb resymol, a oeddent yn ei erbyn neu a oedd angen rhagor o wybodaeth arnynt i allu penderfynu. Ar y cyfan, roedd y farn ynglŷn â hyn yn gymysg ond roedd mwy o ymatebwyr o blaid y newid (38%) nag yn ei erbyn (25%). Dywedodd ychydig dros draean (37%) fod arnynt angen rhagor o wybodaeth neu nad oeddent yn gwybod eto.

5.2 Fel a ddangosir yn ffigur 5.1, mae’r gyfran o blaid diddymu amddiffyniad cosb resymol wedi gostwng o’i gymharu â 2019 (2019 – 46%, 2020 – 38%) ac mae bellach ar yr un lefel â’r arolwg sylfaenol yn 2018. Fodd bynnag, mae’r cyfrannau sy’n gwrthwynebu’r newid wedi gostwng hefyd (2019 – 30%, 2020 – 25%). Mae hyn yn adlewyrchu’r ffaith bod mwy o ymatebwyr bellach yn honni bod arnynt angen rhagor o wybodaeth / nad ydynt yn gwybod (2019 – 24%, 2020 – 37%). Cafodd y gwahaniaethau hyn rhwng y farn yn 2019 ac yn 2020 ynglŷn â’r newid deddfwriaethol eu cadarnhau gan brofion ystadegol ac felly gellir cyffredinoli’r canfyddiad i’r boblogaeth ehangach[23].

[23] Dylid trin unrhyw newidiadau rhwng canlyniadau tonnau cyn i'r modd newid a'r don gyfredol â gofal; gallai newid fod yn gyfan gwbl, yn rhannol neu ddim o gwbl oherwydd y newid yn y modd.

**Ffigur 5.1: Barn am y newid i'r ddeddfwriaeth mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol (%) (Pawb – 2018, 2019, 2020)**





*Sail: Pawb - 2018 (1,002), 2019 (1,002), 2020 (1,002)*

5.3 Canfuwyd gwahaniaethau barn yn ôl oedran hefyd. Yn y grwpiau oedran 16-34 a 35-54, roedd ymatebwyr yn fwy tebygol o fod *o blaid* yn hytrach nag *yn erbyn* y newid, fel a ddangosir yn ffigur 5.2. Fodd bynnag, ymhlith yr ymatebwyr 55+ oed roedd ychydig yn fwy ohonynt yn gwrthwynebu'r newid nag oedd o'i blaid. Cafodd y gwahaniaethau hyn yn ôl oedran eu cadarnhau gan brofion ystadegol ac felly gellir cyffredinoli'r canfyddiad i'r boblogaeth ehangach. Canfuwyd gwahaniaethau tebyg yn ôl oedran yn arolygon 2018 a 2019 hefyd[24].

[24] Dylid trin unrhyw ddiffyg newid rhwng canlyniadau tonnau cyn i'r modd newid a'r don gyfredol â gofal; gallai diffyg newid fod yn gyfan gwbl, yn rhannol neu ddim o gwbl oherwydd y newid yn y modd.

**Ffigur 5.2: Barn am y newid i ddeddfwriaeth mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol (Pawb ac yn ôl grŵp oedran)**




*Sail: Pawb (1,002), 16-34 (364), 35-54 (357), 55+ (281)*


5.4 Wrth gymharu barn y tri grŵp oedran dros amser, mae'r gwahaniaethau'n fwy amlwg ymhlith y grwpiau oedran 35-54 a 55+. O'i gymharu â 2019, cofnodwyd gostyngiadau yn y ddau grŵp oedran yma yn y cyfrannau o blaid ac yn erbyn y newid deddfwriaethol a chodiadau sylweddol yn y nifer sy'n dweud bod arnynt angen rhagor o wybodaeth neu eu bod 'ddim yn gwybod' (+16 pwynt canran ymhlith ymatebwyr 35-54 oed, +20 pwynt canran ymhlith ymatebwyr 55+ oed)[25]. Caiff y gwahaniaethau hyn eu cadarnhau gan brofion ystadegol ac felly gellir eu cyffredinoli i'r boblogaeth ehangach.

5.5 Yn arolwg 2020, canfuwyd gwahaniaethau hefyd yn ôl rhywedd o ran barn ymatebwyr am y newid deddfwriaethol. Tra'r oedd y cyfrannau o blaid y newid yn debyg (36% o ddynion o'i gymharu â 40% o fenywod), roedd dynion yn fwy tebygol na menywod o ddweud eu bod yn erbyn y newid (32% o'i gymharu â 18%) ac o ganlyniad yn llai tebygol o fod angen rhagor o wybodaeth neu fod heb benderfynu fel a ddangosir yn ffigur 5.3. Caiff y gwahaniaethau hyn eu cadarnhau gan brofion ystadegol ac felly gellir eu cyffredinoli i'r boblogaeth gyffredinol ac maent yn

[25] Dylid trin unrhyw newidiadau rhwng canlyniadau tonnau cyn i'r modd newid a'r don gyfredol â gofal; gallai newid fod yn gyfan gwbl, yn rhannol neu ddim o gwbl oherwydd y newid yn y modd.

cynrychioli newid o arolygon blaenorol lle na chofnodwyd gwahaniaethau barn o'r fath rhwng y rhywiau[26].

**Ffigur 5.3: Barn am y newid i'r ddeddfwriaeth mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol (Pawb ac yn ôl y rhywiau)**




*Sail: Pawb (1,002), Dynion (369), Menywod (630)*

5.6 Gofynnwyd i'r ymatebwyr egluro'u rhesymau dros eu barn ynglŷn â'r newid deddfwriaethol. Eto, roedd hyn yn eu geiriau hwy eu hunain ac mae'r ymatebion wedi cael eu grwpio'n themâu cyffredin. Mae Tabl 5.1 yn dangos y rhesymau a nodwyd dros fod o blaid y newid (417 o ymatebwyr). Yr ymateb mwyaf mynych oedd nad oeddent yn cytuno â smacio neu gosbi plant yn gorfforol (38% o'r rhai a oedd o blaid y newid). Hwn oedd yr ymateb mwyaf mynych yn arolygon 2018 a 2019 hefyd (40% a 38% yn y drefn honno)[27]. Amlygodd eraill fod ffyrdd eraill o sicrhau ymddygiad da (17%), nad yw'n wers dda a'i fod yn rhoi anogaeth i ddefnyddio trais (8%) ac nad yw'n gweithio (6%) yn ogystal ag ymatebion a oedd yn canolbwyntio ar y niwed a wneir i blant megis dweud mai cam-drin ydyw / y gall arwain at gam-drin (10%) a'i fod yn niweidiol i blant (5%).

[26] Dylid trin unrhyw newidiadau rhwng canlyniadau tonnau cyn i'r modd newid a'r don gyfredol â gofal; gallai newid fod yn gyfan gwbl, yn rhannol neu ddim o gwbl oherwydd y newid yn y modd.
[27] Dylid trin unrhyw ddiffyg newid rhwng canlyniadau tonnau cyn i'r modd newid a'r don gyfredol â gofal; gallai diffyg newid fod yn gyfan gwbl, yn rhannol neu ddim o gwbl oherwydd y newid yn y modd.

**Tabl 5.1: Allwch chi ddweud wrthyf pam eich bod o blaid y newid i'r gyfraith mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol yng Nghymru? [Digymell]**

| **Ymateb** | **Canran yr ymatebwyr** ***(Nifer yr ymatebwyr)*** |
|---|---|
| Ddim yn cytuno â smacio \ cosbi plant yn gorfforol | 38 (*n.145)* |
| Mae ffyrdd eraill o sicrhau ymddygiad da \ disgyblaeth | 17 (*n.63)* |
| Cam-drin ydyw / gall arwain at gam-drin | 10 (*n.37)* |
| Nid yw'n wers dda \ mae'n rhoi anogaeth i ddefnyddio trais | 8 (n.33) |
| Bydd yn helpu i amddiffyn plant | 6 (*n.24)* |
| Cefais i fy nharo pan oeddwn yn blentyn | 6 (*n.23)* |
| Nid yw'n gweithio \ nid yw'n angenrheidiol | 6 (*n.24)* |
| Mae'n niweidiol i blant | 5 (n.20) |
| Ddim yn gwybod | 5 (n.19) |
| **Ymatebion eraill a nodwyd gan lai na 5 y cant o'r ymatebwyr** | |
| Mae tap yn iawn \ slap fach \ iawn os nad yw rhywun yn mynd yn rhy bell | |
| Mae ei angen | |
| Gwneud pethau'n fwy eglur \ rhieni'n gwybod ble maen nhw'n sefyll | |
| Dydw i erioed wedi smacio fy mhlant | |
| Mae rhai rhieni'n mynd yn rhy bell | |

*Sail: Y rhai sydd o blaid y newid i'r gyfraith mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol yng Nghymru (417)*
*(a) Efallai fod cyfanswm y tabl yn fwy na 100 y cant am bod ymatebwyr yn gallu rhoi mwy nag un ateb*
*(b) Cyflwynir ymatebion eraill yn nhrefn yr wyddor*

5.7 O'r rhai a oedd yn erbyn y newid i'r ddeddfwriaeth (217 o ymatebwyr), un o'r prif resymau dros wrthwynebu'r newid oedd rheoli ymddygiad a disgyblu. Roedd tua chwarter (26%) y rhai a oedd yn erbyn y newid yn meddwl bod angen y sefyllfa bresennol i reoli ymddygiad / disgyblu plant / addysgu am barch / dangos ffiniau. Fe wnaeth eraill sylwadau am y diffyg disgyblaeth ehangach mewn cymdeithas – does dim disgyblaeth / parch y dyddiau hyn / mae plant yn ymddwyn yn wael (12%).

5.8 Myfyriodd eraill ynghylch eu profiadau hwy eu hunain gan ddweud eu bod yn erbyn y newid am nad yw'n gwneud unrhyw niwed \ ni wnaeth unrhyw niwed i mi \ i'm plant i (22%). Fe wnaeth rhai amodi eu gwrthwynebiad i'r newid gan ddweud y

byddent hwy yn ei erbyn cyn belled â bod y gosb yn dal i fod yn rhesymol ac nad yw'n mynd yn rhy bell.

5.9 Y tu hwnt i'r rhesymau a drafodwyd ym mharagraffau 5.7 a 5.8, roedd y brif thema arall o ran rhesymau dros wrthwynebu'r newid yn canolbwyntio ar bwy ddylai fod yn gyfrifol am ddisgyblu plant. O'r rhai a oedd yn erbyn y newid deddfwriaethol, dywedodd 9% mai'r rheswm dros hyn oedd eu bod yn meddwl y dylid caniatáu i rieni wneud y penderfyniad i gosbi eu plentyn neu beidio a dywedodd 7% mai'r rheswm oedd am eu bod yn meddwl na ddylai'r Llywodraeth ymwneud â'r mater. Ceir rhestr lawn o'r atebion yn nhabl 5.2.

**Tabl 5.2: Allwch chi ddweud wrthyf pan eich bod yn erbyn y newid i'r gyfraith mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol yng Nghymru? [Digymell]**

| **Ymateb** | **Canran yr ymatebwyr** ***(Nifer yr ymatebwyr)*** |
|---|---|
| Mae ei angen i reoli ymddygiad \ disgyblu'r plentyn \ addysgu am barch \ dangos ffiniau | 26 (*n.65)* |
| Nid yw'n gwneud unrhyw niwed \ ni wnaeth unrhyw ddrwg i mi \ i'm plant i | 22 (*n.54)* |
| Mae'n iawn os nad yw'n mynd yn rhy bell \ os yw'n gosb resymol | 13 (*n.33)* |
| Does dim disgyblaeth y dyddiau hyn \ mae plant yn ymddwyn yn wael \ dim parch | 12 (*n.30)* |
| Dylai rhiant gael cosbi ei blentyn \ dylai fod â dewis \ dylai gael gwneud y penderfyniad | 9 (*n.21)* |
| Ni ddylai'r Llywodraeth ymwneud â'r mater | 7 (*n.17)* |
| Ddim yn gwybod | 7 (*n.17)* |
| **Ymatebion eraill a nodwyd gan lai na 5 y cant o'r ymatebwyr** | |
| Anodd i'w blismona \ i'w orfodi \ i ddarparu adnoddau ar ei gyfer | |
| Mae pob amgylchiad \ plentyn yn wahanol | |
| Mae'r gyfraith yn iawn ar hyn o bryd | |
| Nid oes mo'i angen | |
| Iawn pan fo'r plentyn mewn perygl | |
| Dros ben llestri \ ddim yn rhesymol | |
| Ni ddylai gael ei wneud yn drosedd | |
| I'w ddefnyddio fel dewis olaf | |

*Base: Sail: Y rhai sydd yn erbyn y newid i'r gyfraith mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol yng Nghymru (217)*
*(a) Efallai fod cyfanswm y tabl yn fwy na 100 y cant am bod ymatebwyr yn gallu rhoi mwy nag un ateb*
*(b) Cyflwynir ymatebion eraill yn nhrefn yr wyddor*

5.10 O ran y rhai yr oedd arnynt angen rhagor o wybodaeth cyn penderfynu (276 o ymatebwyr) yn bennaf roedd arnynt eisiau naill ai rhagor o fanylion neu wybodaeth ynglŷn â sut y byddai'n gweithio (36% o'r rhai yr oedd arnynt angen rhagor o wybodaeth) neu'n benodol hoffent pe bai mwy o eglurder yn y diffiniadau a oedd yn rhan o'r ddeddfwriaeth:

- Diffiniad o gosb resymol (14%)
- Beth sy'n gyfystyr â smacio \ ymosod, yr hyn sy'n cael ei ganiatáu o'i gymharu â'r hyn nad yw'n cael ei ganiatáu (13%)
- Diffiniadau \ enghreifftiau (8%)

5.11 Yr unig reswm arall a grybwyllwyd gan fwy na 5% o'r rhai yr oedd arnynt angen rhagor o wybodaeth oedd yr hoffent weld peth ymchwil / tystiolaeth ar effaith smacio (7%).

5.12 Mae'r ymatebion hyn yn debyg iawn i'r rhai a gafwyd yn arolygon 2018 a 2019[28].

[28] Dylid trin unrhyw ddiffyg newid rhwng canlyniadau tonnau cyn i'r modd newid a'r don gyfredol â gofal; gallai diffyg newid fod yn gyfan gwbl, yn rhannol neu ddim o gwbl oherwydd y newid yn y modd.

**Tabl 5.3: Allwch chi ddweud wrthyf pa wybodaeth arall y mae arnoch ei hangen? [Digymell]**

| **Ymateb** | **Canran yr ymatebwyr** ***(Nifer yr ymatebwyr)*** |
|---|---|
| Rhagor o fanylion \ rhagor o wybodaeth \ sut y byddai'n gweithio | 36 (*n.100)* |
| Diffiniad o gosb resymol | 14 (*n.38)* |
| Beth sy'n gyfystyr â smacio \ ymosod, yr hyn sy'n cael ei ganiatáu o'i gymharu â'r hyn nad yw'n cael ei ganiatáu | 13 (*n.36)* |
| Diffiniadau \ enghreifftiau | 8 (*n.22)* |
| Ymchwil \ tystiolaeth o effaith smacio | 7 (*n.18)* |
| Ddim yn gwybod | 11 (*n.30)* |
| **Ymatebion eraill a nodwyd gan lai na 5 y cant o'r ymatebwyr** | |
| Sut y bydd yn cael ei blismona \ ei orfodi \ sut i ddarparu adnoddau ar ei gyfer | |
| Gwybodaeth am y gyfraith bresennol | |
| Angen rhagor o amser i feddwl amdano | |
| Cosb \ cyhuddiadau i rieni | |
| Diogelu \ amddiffyn rhieni | |

*Sail: Y rhai y mae angen rhagor o wybodaeth arnynt i benderfynu a ydynt o blaid ynteu yn erbyn newid i'r gyfraith mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol yng Nghymru (276)*

*(a) Efallai fod cyfanswm y tabl yn fwy na 100 y cant am bod ymatebwyr yn gallu rhoi mwy nag un ateb*

*(b) Cyflwynir ymatebion eraill yn nhrefn yr wyddor*

## 6. Casgliadau

6.1 Fel yr eglurwyd yn adran 1.2, dylid trin unrhyw newidiadau mewn canlyniadau o donnau cyn i'r modd newid a'r don gyfredol â gofal; gallai newid fod yn gyfan gwbl, yn rhannol neu ddim o gwbl oherwydd y newid yn y modd. Byddwn yn adolygu'r mater hwn mewn casgliadau data yn y dyfodol ac adroddiadau dilynol.

6.2 Mae'r farn yn dal i fod yn gymysg ynglŷn â'r gosodiad 'ei bod hi weithiau'n angenrheidiol smacio plentyn' ond roedd y cyhoedd yn fwy tebygol o anghytuno (47%) â'r gosodiad na chytuno ag ef (34%). Mae'r gwahaniaeth hwn rhwng y cyfrannau sy'n cytuno ac yn anghytuno wedi mynd yn llai o'i gymharu ag arolwg 2019 (31% yn anghytuno, 55% yn cytuno) ac mae bellach yn agosach at y lefelau a gofnodwyd yn arolwg sylfaenol 2018. Mae cydbwysedd y farn yn dal i fod yn gysylltiedig ag oedran yr ymatebydd gyda'r rhai dros 55 oed yn llawer mwy tebygol i gytuno 'ei bod hi weithiau'n angenrheidiol smacio plentyn' na'r rhai 16-34 oed (47% o'i gymharu ag 20%).

6.3 Ar draws pob un o'r tri arolwg (2018. 2019. 2020) ymddengys fod rhywfaint o gamddealltwriaeth ynghylch statws presennol deddfwriaeth mewn perthynas â smacio, gyda dim ond lleiafrif yn meddwl bod hyn yn cael ei ganiatáu. Roedd y lleiafrif hwn yn llai byth yn arolwg 2020 (22%) o'i gymharu â 27% a 28% yn y drefn honno yn arolygon 2018 a 2019. Mae maint y gamddealltwriaeth yn weddol gyson ar draws gwahanol grwpiau demograffig (oedran, y rhywiau, gradd gymdeithasol).

6.4 Pan ofynnwyd iddynt ar lefel ddigymell a oeddent yn ymwybodol o'r newid deddfwriaethol mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol, dywedodd ychydig dros chwarter (27%) eu bod yn gwybod am rywbeth. Mae hyn yn debyg iawn i'r lefel a gofnodwyd yn 2018 ond yn is nag arolwg 2019 (42%). Mae arolygon blaenorol yn 2018 a 2019 wedi dangos mai prif ffynonellau ymwybyddiaeth ddigymell o'r newid deddfwriaethol fu cynnwys a rhaglenni newyddion sydd yr un fath ar gyfer yr adroddiad hwn ond fe wnaeth llai o bobl ei nodi fel rheswm dros ddod yn ymwybodol o'r newid deddfwriaethol. Gan hynny, gallai'r ffaith bod y newyddion wedi cael eu dominyddu gan sylw i Covid-19 cyn ac yn ystod y gwaith maes ar gyfer yr arolwg hwn fod wedi cyfrannu at y gostyngiad mewn ymwybyddiaeth ddigymell, yn enwedig

gan nad oedd unrhyw ymgyrchoedd cyfathrebu â'r cyhoedd y talwyd amdanynt ar y pryd i godi ymwybyddiaeth o'r newid i'r gyfraith.

6.5 Bu gostyngiad hefyd mewn ymwybyddiaeth o'r newid deddfwriaethol o gael arweiniad, er nad i'r un graddau â chydag ymwybyddiaeth ddigymell. O gael eu harwain â gwybodaeth am yr hyn y gallai'r newid ei olygu, 44% sy'n dweud bod ganddynt unrhyw ymwybyddiaeth o hyn o'i gymharu â 49% yn 2019. Fodd bynnag, mae lefel gyfredol yr ymwybyddiaeth o gael eu harwain yn dal i fod yn uwch nag yn arolwg sylfaenol 2018 (34%). Roedd gwahaniaethau mewn ymwybyddiaeth o'r newid yn amlwg yn ôl oedran (roedd ymatebwyr hŷn, 55+ oed, yn fwy ymwybodol) ac yn ôl gradd gymdeithasol (roedd ymatebwyr yng ngradd gymdeithasol ABC1 yn fwy tebygol o fod yn ymwybodol).

6.6 Bu peth newid hefyd yn y farn am gael gwared ar amddiffyniad cosb resymol. Mae'r gyfran a oedd o blaid y newid deddfwriaethol wedi gostwng o 46% yn 2019 i 38% yn 2020. Fodd bynnag, nid yw'r newid hwn yn adlewyrchu cynnydd mewn gwrthwynebiad i'r newid deddfwriaethol gan bod y gyfran hon wedi gostwng dros amser hefyd (o 30% yn 2019 i 25% yn 2020). Yn lle hynny, bu cynnydd yn y rhai sy'n teimlo bod arnynt angen rhagor o wybodaeth neu nad ydynt wedi penderfynu (o 24% yn 2019 i 37% yn 2020) ac mae hyn yn cyd-daro ag ymwybyddiaeth is o'r newid deddfwriaethol y mae'r arolwg wedi'i chofnodi. Roedd ymatebwyr iau'n fwy tebygol o fod o blaid y newid deddfwriaethol.

6.7 Y rhesymau mwyaf mynych a ddarparwyd gan y rhai a oedd yn erbyn y newid deddfwriaethol oedd bod angen y statws presennol i reoli / disgyblu plant, nad yw wedi gwneud unrhyw niwed iddynt hwy neu i'w plant a'i fod yn iawn cyn belled nad yw pethau'n mynd yn rhy bell. Ar gyfer y rhai a oedd o blaid y newid deddfwriaethol, roedd y rhesymau'n cynnwys peidio â chytuno â chosbi plant yn gorfforol, bod ffyrdd eraill o sicrhau ymddygiad da ac mai cam-drin ydyw neu y gall arwain at gam-drin.

6.8 Roedd ar y gyfran uwch o'r cyhoedd yn yr arolwg hwn a oedd heb benderfynu ynghylch y mater eisiau rhagor o wybodaeth am sut y byddai'n gweithio a mwy o eglurder ynghylch diffiniadau a oedd yn rhan o'r ddeddfwriaeth. Dylid cymryd hyn i

ystyriaeth wrth godi ymwybyddiaeth o’r newid i’r gyfraith trwy’r ymgyrch cyfathrebu â’r cyhoedd sydd i fod i ddechrau’n ddiweddarach eleni.

## Atodiad A – Dadansoddiad o bwy sy'n byw / nad ydynt yn byw mewn aelwydydd â phlant 6 oed ac iau

A1.1 Fel a grybwyllwyd yn adran 1.2 roedd adroddiadau blaenorol yn 2018 a 2019 yn cynnwys dadansoddiad o ddata'r arolwg ymhlith y rhai a oedd â chyfrifoldebau gofalu am blentyn 7 oed ac iau a'r rhai a oedd heb y cyfrifoldebau hyn er mwyn archwilio gwahaniaethau ymhlith y rhai y mae'r newid deddfwriaethol yn debygol o effeithio arnynt fwyaf. Nid oedd y diffiniad hwn ar gael ar gyfer arolwg 2020 er y bu'n bosibl archwilio canfyddiadau ymhlith y rhai sy'n byw mewn aelwyd â phlentyn 6 oed ac iau a'r rhai nad ydynt.

A1.2 O ystyried y newid hwn yn y diffiniad a bod adroddiadau blaenorol wedi cyflwyno canfyddiadau'n seiliedig ar y diffiniad 'yn gofalu am blentyn 7 oed ac iau', nid yw'r dadansoddiad ymhlith y rhai sydd â chyfrifoldebau neu sydd heb gyfrifoldebau am blant bach wedi'i gynnwys ym mhrif gorff yr adroddiad. Yn lle hynny mae'r Atodiad hwn yn archwilio'r canlyniadau yn ôl y grwpiau hyn gan ddefnyddio'r diffiniad 'yn byw mewn aelwyd â phlentyn 6 oed ac iau' ar gyfer y 5 prif fesur a gafodd sylw yn yr arolwg, sef:


- Lefel cytundeb â'r gosodiad 'ei bod hi weithiau'n angenrheidiol smacio plentyn'
- Gwybodaeth am y gyfraith bresennol mewn perthynas â smacio
- Ymwybyddiaeth ddigymell o'r newid deddfwriaethol mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol
- Ymwybyddiaeth o gael eu harwain o'r newid deddfwriaethol mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol
- Barn am y newid deddfwriaethol mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol

A1.3 Lle dygir cymariaethau â 2018 a 2019, mae data'r arolwg o'r blynyddoedd hyn wedi cael ei ailddadansoddi fel bod canfyddiadau o'r arolygon hyn hefyd yn seiliedig ar ba un a yw ymatebwyr yn byw mewn aelwydydd â phlentyn 6 oed ac iau ai peidio.

Lefel cytundeb â'r gosodiad 'ei bod hi weithiau'n angenrheidiol smacio plentyn'

A1.4 Roedd y rhai sy'n byw mewn aelwydydd lle mae plentyn 6 oed ac iau'n llai tebygol o gytuno *ei bod hi weithiau'n angenrheidiol smacio plentyn* – 26% o'i gymharu â 35% ymhlith y rhai nad ydynt yn byw mewn aelwydydd â phlentyn 6 oed ac iau (ffigur A1.1). Caiff y gwahaniaeth hwn ei gadarnhau gan brofion ystadegol ac felly gellir cyffredinoli'r canfyddiad i'r boblogaeth ehangach.

**Ffigur A1.1: Y ganran sy'n cytuno 'ei bod hi weithiau'n angenrheidiol smacio plentyn' (Pawb a pha un a ydynt yn byw mewn aelwyd â phlentyn 6 oed ac iau ai peidio)**




*Sail: Pawb (1,002), Yn byw mewn aelwyd â phlentyn 6 oed ac iau (172), Ddim yn byw mewn aelwyd â phlentyn 6 oed ac iau (830)*


A1.5 Cafodd y gwahaniaeth uchod o ran cytuno 'ei bod hi weithiau'n angenrheidiol smacio plentyn' rhwng y rhai sy'n byw ac nad ydynt yn byw â phlentyn 6 oed ac iau yn eu haelwyd ei ganfod yn 2018 hefyd (27% yn cytuno o'i gymharu â 37% yn cytuno) ac yn 2019 (15% yn cytuno o'i gymharu â 33% yn cytuno yn y drefn honno)[29].

[29] Dylid trin unrhyw ddiffyg newid rhwng canlyniadau tonnau cyn i'r modd newid a'r don gyfredol â gofal; gallai diffyg newid fod yn gyfan gwbl, yn rhannol neu ddim o gwbl oherwydd y newid yn y modd.

Gwybodaeth am y gyfraith bresennol mewn perthynas â smacio

A1.6 Nid yw gwybodaeth am y gyfraith bresennol mewn perthynas â smacio'n dangos rhyw lawer o wahaniaeth wrth ystyried pa yn a yw unigolyn yn byw mewn aelwyd â phlentyn 6 oed ac iau ai peidio. Mae tuag un rhan o bump o bob grŵp, fel a ddangosir yn ffigur A1.2, yn credu bod y gyfraith yn caniatáu i rieni smacio'u plant.

**Ffigur A1.2: Y ganran sy'n credu bod y gyfraith bresennol yn caniatáu i rieni smacio'u plant (Pawb ac yn ôl pa un a ydynt yn byw mewn aelwyd â phlentyn 6 oed ac iau ai peidio)**




*Sail: Pawb (1,002), Yn byw mewn aelwyd â phlentyn 6 oed ac iau (172), Ddim yn byw mewn aelwyd â phlentyn 6 oed ac iau (830)*


Ymwybyddiaeth ddigymell o'r newid deddfwriaethol mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol

A1.7 Ar y cyfan, dywedodd ychydig dros chwarter (27%) y bobl eu bod yn ymwybodol o newidiadau i'r gyfraith mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol ar lefel ddigymell[30]. Roedd ymwybyddiaeth o newid deddfwriaethol yn uwch ymhlith y rhai sy'n byw mewn aelwydydd â phlentyn 6 oed ac iau o'i gymharu â'r rhai nad

[30] Ni chafodd yr ymatebwyr unrhyw fanylion ar gyfer newidiadau posibl ar yr adeg hon a gofynnwyd iddynt yn syml '*Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw newidiadau i'r gyfraith mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol?'*

ydynt yn byw yn yr aelwydydd hyn – 34% o'i gymharu â 25% (ffigur A1.3). Cadarnhawyd y gwahaniaeth hwn gan brofion ystadegol ac felly gellir cyffredinoli'r canfyddiad i'r boblogaeth ehangach. Mae hyn yn cynrychioli newid o'i gymharu â'r arolygon blaenorol lle na chanfuwyd gwahaniaethau ystadegol arwyddocaol rhwng y ddau grŵp (2018 – 26% ymhlith y rhai mewn aelwydydd â phlentyn 6 oed ac iau o'i gymharu â 29% ymhlith y rhai nad ydynt mewn aelwydydd â phlentyn 6 oed ac iau, 2019 – 36% o'i gymharu â 43%)[31].

**Ffigur A1.3: Y ganran a oedd yn ymwybodol o newidiadau i'r ddeddfwriaeth mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol [Digymell] (Pawb ac yn ôl pa un a ydynt yn byw mewn aelwyd â phlentyn 6 oed ac iau ai peidio)**




*Sail: Pawb (1,002), Yn byw mewn aelwyd â phlentyn 6 oed ac iau (172), Ddim yn byw mewn aelwyd â phlentyn 6 oed ac iau (830)*

<u>Ymwybyddiaeth o gael eu harwain o'r newid deddfwriaethol mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol</u>


A1.8 Ar ôl i ni ofyn am eu hymwybyddiaeth ar lefel ddigymell, cyflwynwyd disgrifiad o'r newid deddfwriaethol (sydd i'w weld yn Atodiad E) i'r ymatebwyr a gofynnwyd iddynt a oeddent wedi gweld neu glywed unrhyw beth am hyn.

[31] Dylid trin unrhyw newidiadau rhwng canlyniadau tonnau cyn i'r modd newid a'r don gyfredol â gofal; gallai newid fod yn gyfan gwbl, yn rhannol neu ddim o gwbl oherwydd y newid yn y modd.

A1.9 Os ydym yn ystyried y gyfran a ddywedodd eu bod yn ymwybodol ar y cyfan (h.y. naill ai wedi ateb *Ydw – rwy'n ymwybodol o'r cynnig hwn* neu *Ydw – ond doeddwn i ddim yn siŵr o'r manylion*) nid oes gwahaniaeth rhwng y rhai sy'n byw mewn aelwydydd â phlentyn 6 oed ac iau a'r rhai nad ydynt yn byw gyda phlant dan 6 – dywedodd 44%[32] o'r naill grŵp a'r llall eu bod yn ymwybodol o'r newid.

A1.10 Fodd bynnag, pan ydym yn ystyried y gyfran sy'n fwy pendant eu barn (h.y. dim ond y rhai a atebodd *Ydw – rwy'n ymwybodol o'r cynnig hwn*) roedd y rhai sy'n byw gyda phlant 6 oed ac iau'n fwy tebygol o ddweud hyn – 19% o'i gymharu ag 11% ymhlith y rhai nad ydynt yn byw gyda phlant 6 oed ac iau. Caiff y gwahaniaeth yn y patrwm ymateb rhwng y ddau grŵp ei gadarnhau gan brofion ystadegol ac felly gellir cyffredinoli'r canfyddiad i'r boblogaeth ehangach.

**Ffigur A1.4: Y ganran a oedd yn ymwybodol o newidiadau i'r ddeddfwriaeth mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol [O gael eu harwain] (Pawb ac yn ôl pa un a ydynt yn byw mewn aelwyd â phlentyn 6 oed ac iau ai peidio)**





*Sail: Pawb (1,002), Yn byw mewn aelwyd â phlentyn 6 oed ac iau (172), Ddim yn byw mewn aelwyd â phlentyn 6 oed ac iau (830)*

32 Mae'r cyfanswm yn 44% yn hytrach na 43% ar gyfer y rhai sy'n byw mewn aelwydydd â phlant dan 6 (19% + 24% fel a ddangosir yn Ffigur A1.4) gan bod y canrannau'n 19.17% a 24.43% = 43.60%.

Barn am y newid deddfwriaethol mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol

A1.11 Roedd y rhai sy'n byw mewn aelwydydd â phlentyn 6 oed ac iau'n fwy tebygol o fod o blaid y newid deddfwriaethol mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol (50% o blaid, 18% yn erbyn). Cadarnhawyd y gwahaniaethau hyn gan brofion ystadegol ac felly gellir cyffredinoli'r canfyddiad i'r boblogaeth ehangach.

**Ffigur A1.5: Barn am y newid i'r ddeddfwriaeth mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol (%) (Pawb ac yn ôl pa un a ydynt yn byw mewn aelwyd â phlentyn 6 oed ac iau ai peidio)**





*Sail: Pawb (1,002), Yn byw mewn aelwyd â phlentyn 6 oed ac iau (172), Ddim yn byw mewn aelwyd â phlentyn 6 oed ac iau (830)*

A1.12 Fel a ddangosir yn Ffigur A1.6 cofnodwyd gostyngiadau dros amser yn y cyfrannau sydd o blaid y newid deddfwriaethol ymhlith y rhai sy'n byw mewn aelwydydd â phlant 6 oed ac iau a'r rhai nad ydynt yn byw yn yr aelwydydd hynny. Fodd bynnag, dim ond y gwahaniaeth dros amser ymhlith y rhai nad ydynt yn byw gyda phlant 6 oed ac iau (2019 – 44%, 2020 – 36%) a gaiff eu cadarnhau gan

brofion ystadegol ac y gellir felly eu cyffredinoli i'r boblogaeth ehangach[33]. Ar ben hynny, ni ddigwyddodd y newid hwn o ganlyniad i gynnydd yn y rhai sy'n gwrthwynebu'r newid (cofnodwyd gostyngiadau bychain yn y gwrthwynebiad i'r newid ymhlith y ddau grŵp hefyd) ond mae'n adlewyrchu'r cynnydd yn y rhai sy'n dweud yn awr bod arnynt angen rhagor o wybodaeth neu eu bod heb benderfynu.

**Ffigur A1.6: Barn am y newid i'r ddeddfwriaeth mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol (%) (Yn ôl pa un a ydynt yn byw mewn aelwyd â phlentyn 6 oed ac iau ai peidio dros amser – 2019, 2020)**




[33] Dylid trin unrhyw newidiadau rhwng canlyniadau tonnau cyn i'r modd newid a'r don gyfredol â gofal; gallai newid fod yn gyfan gwbl, yn rhannol neu ddim o gwbl oherwydd y newid yn y modd.

## Atodiad B - Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru ar rianta

Mae'r Tabl isod yn nodi cyhoeddiadau Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth ar rianta a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru dros y saith mlynedd ddiwethaf.

**Tabl A1.7: Ymchwil Flaenorol Berthnasol gan Lywodraeth Cymru**

| Teitl | Dull a sampl | Diben |
|---|---|---|
| **Agweddau tuag at arferion rhianta a disgyblu plant**<br><br>**Cyhoeddwyd: 2014** | • Ansoddol<br>• 14 o grwpiau ffocws (70 o gyfranogwyr)<br>• Rhieni plant dan 18<br>• Yn 2013 | Archwilio barn rhieni am arfer rhianta gan gynnwys disgyblu. Defnyddiwyd y canfyddiadau i lywio cymorth rhianta. |
| **Rheoli ymddygiad, agweddau ac arferion plant: Arolwg Sylfaenol 2013**<br><br>**Cyhoeddwyd: 2014** | • Arolwg Omnibws Meintiol<br>• 1,022 o oedolion (56% wedi bod yn rhieni erioed, 27% yn rhieni i blant dan 18)<br>• Yn 2013 | Casglu data ar agweddau'r cyhoedd (gan gynnwys rhieni ac oedolion nad ydynt yn rhieni) tuag at arferion rhianta gan gynnwys disgyblaeth. Defnyddiwyd y canfyddiadau i lywio cymorth rhianta. |
| **Agweddau rhieni tuag at reoli ymddygiad plant bach 2015**<br><br>**Cyhoeddwyd: 2016** | • Meintiol – arolwg ffôn<br>• 387 o rieni/ gwarcheidwaid plant dan 7 oed<br>• Gan ddefnyddio rhestr ailgysylltu Arolwg Cenedlaethol Cymru<br>• Yn 2015 | Pwyso a mesur agweddau rhieni â phlant bach at rianta a rheoli ymddygiad plant. Gwaith maes a gyflawnwyd cyn lansio'r ymgyrch cymorth rhianta *Magu Plant. Rhowch Amser Iddo* |
| **Agweddau rhieni tuag at reoli ymddygiad plant bach 2017**<br><br>**Cyhoeddwyd: 2018** | • Meintiol – arolwg ffôn<br>• 269 o rieni/ gwarcheidwaid plant dan 7 oed<br>• Gan ddefnyddio arolwg ailgysylltu Arolwg Cenedlaethol Cymru<br>• Yn 2017 | Pwyso a mesur agweddau rhieni â phlant bach at rianta a rheoli ymddygiad plant. Roedd yr arolwg hwn fwy neu lai'n ailadrodd ymchwil flaenorol yn 2015 ac fe helpodd i oleuo'r gwaith paratoadol ar gyfer y cynnig i wahardd cosb gorfforol. |
| **Agweddau'r cyhoedd tuag at gosbi plant yn gorfforol: Arolwg sylfaenol, 2018**<br><br>**Cyhoeddwyd: 2019** | • Meintiol – arolwg wyneb yn wyneb<br>• 1,002 o aelodau o'r cyhoedd 16+ oed<br>• Cynhaliwyd trwy Arolwg Omnibws Cymru Beaufort<br>• Yn 2018 | Arolwg sylfaenol ymhlith y cyhoedd yng Nghymru i archwilio agweddau tuag at gosbi plant yn gorfforol, ymwybyddiaeth o newidiadau arfaethedig i'r ddeddfwriaeth i ddiddymu amddiffyniad cosb resymol a lefel y gefnogaeth i'r newid hwn. |
| **Agweddau'r cyhoedd tuag at gosbi plant yn gorfforol: Arolwg Ton 2, 2019**<br><br>**Cyhoeddwyd: 2021** | • Meintiol – arolwg wyneb yn wyneb<br>• 1,002 o aelodau o'r cyhoedd 16+ oed<br>• Cynhaliwyd trwy Arolwg Omnibws Cymru Beaufort<br>• Yn 2019 | Arolwg ymhlith y cyhoedd yng Nghymru i archwilio agweddau tuag at gosbi plant yn gorfforol, ymwybyddiaeth o newidiadau arfaethedig i'r ddeddfwriaeth i ddiddymu amddiffyniad cosb resymol a lefel y gefnogaeth i'r newid hwn, gan adeiladu ar yr arolwg sylfaenol a gynhaliwyd yn 2018 |

## Atodiad C – Holiadur yr Arolwg

**Mae'r adran hon yn ymwneud â chosbi'n gorfforol sy'n cynnwys smacio**

**1. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno ei bod hi weithiau'n angenrheidiol smacio plentyn?**

- Cytuno'n gryf
- Tueddu i gytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Tueddu i anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn gwybod

**2. Ydych chi'n meddwl bod y gyfraith yn caniatáu i rieni smacio'u plant?**

- Ydw
- Nac ydw
- Ddim yn gwybod

**3. Mae'r gyfraith bresennol yn caniatáu i rieni gosbi eu plant yn gorfforol (sy'n cynnwys smacio). Pa lefel o gosb mae'r gyfraith yn ei chaniatáu yn eich tyb chi? Dewiswch faint bynnag sy'n berthnasol yn eich tyb chi.**

**Cosb gorfforol sydd:**

- Yn gadael dim marc o gwbl ar y plentyn
- Yn achosi i'r croen gochi dros dro
- Yn gadael clais sy'n para am ychydig ddyddiau
- Yn gadael marciau a chleisiau sy'n para am yn hwy nag ychydig ddyddiau ond nad yw'n arwain at anaf corfforol parhaol
- Ddim yn gwybod
- Yn gwrthod

**4. Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw newidiadau i'r gyfraith mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol?**

- Ydw
- Nac ydw
- Ddim yn gwybod

**5. Allwch chi ddweud wrthyf sut y bydd y gyfraith yn newid yn eich tyb chi?**

6. **Sut ddaethoch chi'n ymwybodol o'r newid i'r gyfraith mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol?**

- Ar y teledu – newyddion / rhaglen
- Ar y teledu – hysbyseb
- Ar y radio – newyddion / rhaglen
- Ar y radio – hysbyseb
- Mewn papur newydd lleol – newyddion / erthygl
- Mewn papur newydd lleol – hysbyseb
- Mewn papur newydd a gyhoeddir ledled Cymru – newyddion / erthygl
- Mewn papur newydd a gyhoeddir ledled Cymru – hysbyseb
- Mewn papur newydd a gyhoeddir ledled y DU – newyddion / erthygl
- Mewn papur newydd a gyhoeddir ledled y DU – hysbyseb
- Gwefan ar-lein – eitem newyddion
- Gwefan ar-lein – arall
- Y cyfryngau cymdeithasol (heb gynnwys Facebook)
- Facebook
- Mewn cylchgrawn
- Dywedodd rhywun wrthyf (gweithiwr proffesiynol)
- Dywedodd rhywun wrthyf (teulu/ffrind)

Yng Nghymru, mae'r gyfraith mewn perthynas â chosbi'n gorfforol, gan gynnwys smacio, yn newid. Ar hyn o bryd gall rhieni ddefnyddio amddiffyniad cosb resymol yn erbyn cyhuddiad o ymosod corfforol, ond nid yn erbyn cyhuddiadau mwy difrifol o, er enghraifft, wir niwed corfforol. O fis Mawrth 2022, bydd amddiffyniad cosb resymol yn peidio â bod ar gael mwyach yng Nghymru i rieni, gofalwyr a gwarcheidwaid, a'r rhai sy'n gweithredu *in loco parentis* ac sy'n wynebu cyhuddiad o ymosod ar blentyn neu guro plentyn yn eu gofal. Lle mae'r heddlu'n canfod digon o dystiolaeth ar gyfer gobaith realistig o gael rhiant yn euog bydd rhaid iddynt ystyried a yw er lles y cyhoedd eu bod yn dwyn cyhuddiad.

7. **Cyn heddiw, ydych chi wedi gweld neu glywed unrhyw beth am y newid hwn i'r gyfraith o gwbl?**

- Ydw, rwy'n ymwybodol o'r newid
- Ydw – ond nid oeddwn yn siŵr o'r manylion
- Nac ydw
- Ddim yn gwybod

**8. Pa rai o'r gosodiadau canlynol ynglŷn â'r newid i'r gyfraith mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol yng Nghymru sy'n adlewyrchu eich barn chi orau?**

- Rwyf o blaid newid y gyfraith i gael gwared ar amddiffyniad cosb resymol
- Rwyf yn erbyn newid y gyfraith i gael gwared ar amddiffyniad cosb resymol
- Mae angen rhagor o wybodaeth arnaf i benderfynu
- Ddim yn gwybod

**9. a) Allwch chi ddweud wrthyf pam eich bod o blaid y newid i'r gyfraith mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol yng Nghymru?**

PENAGORED

**b) Allwch chi ddweud wrthyf pam eich bod yn erbyn y newid i'r gyfraith mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol yng Nghymru?**

PENAGORED

**c) Allwch chi ddweud wrthyf pa wybodaeth ychwanegol y mae ei hangen arnoch?**

PENAGORED

## Atodiad D – Dull Ymchwil

A1.13 Cynhaliwyd yr ymchwil hon trwy Arolwg Omnibws Cymru Beaufort. Mae arolygon omnibws yn ddull sydd wedi hen ennill ei blwyf o gynnal ymchwil i'r farchnad ac ymchwil gymdeithasol. Fel y mae eu henw'n ei awgrymu, maent yn galluogi grŵp o ddefnyddwyr i rannu'r un cyfrwng arolygu, gan ddwyn budd o ran costau is.

A1.14 Mae sampl yr Arolwg Omnibws wedi'i bwriadu i gynrychioli'r boblogaeth oedolion sy'n byw yng Nghymru ac sy'n 16 oed a throsodd. Fe wnaeth argyfwng iechyd y cyhoedd COVID-19 atal yr arolwg rhag cael ei gynnal yn y modd arferol trwy gyfweliadau wyneb-yn-wyneb mewn pwyntiau samplu penodol ledled Cymru. Yn lle hynny, cynhaliwyd cyfweliadau ar gyfer arolwg mis Tachwedd 2020 ar-lein gan ddefnyddio platfform cyfnewid panel ar-lein Cint.

A1.15 Mae platfform Cint a'i gynhyrchion yn cydymffurfio ag amryw godau ymarfer a chanllawiau megis safonau y Gymdeithas Ymchwil Barn ac Ymchwil i'r Farchnad Ewropeaidd (ESOMAR) a'r Gymdeithas Ymchwil i'r Farchnad (MRS). Mae Cint hefyd yn cydymffurfio ag ISO 20252. Caiff sawl gwiriad ansawdd data eu cynnwys yn system Cint gan gynnwys gwiriad Eiddo Deallusol GEO a CAPTCHA wrth gofrestru, gwiriadau ar gyfer adnabod ymatebydd unigryw ac i ganfod ymddygiad twyllodrus. Hefyd, mae Beaufort yn cynnwys ei gwestiynau a mesurau rheoli ansawdd ei hun yn yr arolwg ac nid yw'n cynnwys ymatebwyr sy'n methu'r gwiriadau hyn.

A1.16 Yn ystod yr arolwg defnyddiwyd rheolaethau cwota pleth ar oedran o fewn rhyw. Yn ychwanegol at hynny, defnyddiwyd rheolaeth cwota ar wahân ar gyfer gradd gymdeithasol ac fe gynhaliwyd cyfweliadau gyda thrigolion ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru.

A1.17 Ar y cam dadansoddi, caiff y data ei bwysoli yn ôl grŵp oedran o fewn pob rhyw o fewn y grwpiad Awdurdod Lleol yn ogystal â gradd gymdeithasol i roi i bob cell ei mynychder cywir o fewn cyfanswm Cymru sy'n deillio o ganlyniadau Cyfrifiad 2011. Cyflwynir y ffigyrau yn yr adroddiad hwn i'r ganran lawn agosaf.

## Samplu cwota cyfrannol

A1.18 Pan gaiff data arolygon eu profi o safbwynt arwyddocâd ystadegol, gwneir tybiaeth bod y sampl a gyflawnwyd yn cynrychioli sampl ar hap o'r boblogaeth berthnasol. Fodd bynnag, gan bod Arolwg Omnibws Cymru'n defnyddio samplu cwota cyfrannol (nid hap-samplu), nid yw arwyddocâd ystadegol gwirioneddol yn gallu cael ei gadarnhau, a bod yn fanwl gywir. Felly, pan fo gwahaniaeth rhwng dau is-grŵp yn cael ei ddisgrifio fel gwahaniaeth 'arwyddocaol' yn yr adroddiad hwn, mae hyn yn cyfeirio at wahaniaeth sy'n arwyddocaol o safbwynt ffug-ystadegol ar y lefel hyder o 95 y cant. Ystyr hyn yw, pe bai'r arolwg yn defnyddio hap-sampl, byddai'r tebygolrwydd o gael y canfyddiad trwy siawns yn llai nag un mewn 20.

## Dadansoddiad Chi-sgwâr

A1.19 Defnyddiwyd y prawf chi-sgwâr yn y dadansoddiad i bennu a yw perthynas yr arsylwyd arni rhwng dau newidyn categoreiddiol yn y sampl yn debygol o adlewyrchu cysylltiad gwirioneddol yn y boblogaeth (h.y. cyfanswm y boblogaeth oedolion 16 oed a throsodd sy'n byw yng Nghymru).

## Atodiad E – Disgrifiad o’r newid i’r ddeddfwriaeth a gyflwynwyd i ymatebwyr yn arolwg Tachwedd 2020

Yng Nghymru, mae’r gyfraith mewn perthynas â chosbi’n gorfforol, gan gynnwys smacio, yn newid. Ar hyn o bryd gall rhieni ddefnyddio amddiffyniad cosb resymol yn erbyn cyhuddiad o ymosod corfforol, ond nid yn erbyn cyhuddiadau mwy difrifol o, er enghraifft, wir niwed corfforol. O fis Mawrth 2022, bydd amddiffyniad cosb resymol yn peidio â bod ar gael mwyach yng Nghymru i rieni, gofalwyr a gwarcheidwaid, a’r rhai sy’n gweithredu *in loco parentis* ac sy’n wynebu cyhuddiad o ymosod ar blentyn neu guro plentyn yn eu gofal. Lle mae’r heddlu’n canfod digon o dystiolaeth ar gyfer gobaith realistig o gael rhiant yn euog bydd rhaid iddynt ystyried a yw er lles y cyhoedd eu bod yn dwyn cyhuddiad.

## Atodiad F – Diffiniad o raddau cymdeithasol

Mae Tabl A1.8, isod, yn rhoi diffiniad o'r dosbarthiadau o raddau cymdeithasol [34] a ddefnyddiwyd yn y dadansoddiad

**Tabl A1.8: Diffiniadau o raddau cymdeithasol**

| Gradd gymdeithasol | Diffiniad |
|---|---|
| **ABC1** | |
| A | Swydd reoli, weinyddol neu broffesiynol uchel |
| B | Swydd reoli, weinyddol neu broffesiynol ganolradd |
| C1 | Swydd reoli, weinyddol neu broffesiynol oruchwyliol, glerigol ac iau |
| **C2DE** | |
| C2 | Gweithwyr llaw crefftus |
| D | Gweithiwr llaw lled-grefftus a di-grefft |
| E | Pensiynwyr y wladwriaeth, gweithwyr achlysurol neu weithwyr radd isaf, pobl ddi-waith â buddion y wladwriaeth yn unig |

[34] Diffiniadau'r Arolwg Darllenyddiaeth Cenedlaethol - http://www.nrs.co.uk/nrs-print/lifestyle-and-classification-data/social-grade/

## Atodiad G – Meintiau is-samplau

Mae Tabl A1.9, isod, yn dangos nifer yr ymatebwyr ar gyfer pob is-sampl a ddefnyddiwyd yn y dadansoddiad. Rhoddir nifer yr ymatebwyr ar gyfer y samplau heb eu pwysoli ac wedi'u pwysoli.

**Tabl A1.9: Meintiau samplau'r is-grwpiau**

| Is-sampl | Sampl heb ei phwysoli | Sampl wedi'i phwysoli |
|---|---|---|
| **Rhyw** [35] | | |
| Gwrywaidd | 369 | 484 |
| Benywaidd | 630 | 515 |
| **Oedran** | | |
| 16-34 | 364 | 299 |
| 35-54 | 357 | 324 |
| 55+ | 281 | 379 |
| **Gradd gymdeithasol** | | |
| ABC1 | 554 | 521 |
| C2DE | 448 | 481 |
| **Yn byw mewn aelwyd â phlentyn 6 oed ac iau** | | |
| Ydy | 172 | 144 |
| Nac ydy | 830 | 858 |

[35] Mae cyfanswm y Dynion a'r Menywod yn 999. Roedd 3 ymatebydd a nododd 'arall' neu 'gwell gen i beidio â dweud' fel ateb hefyd